

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 23ain Ionawr, 2024 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor John Crook (Chairman)

County Councillors: Fay Bromfield, Christopher Edwards, Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell, Sue Riley, Maria Stevens and Jackie Strong

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy

APOLOGIES: Dim

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Dim.

3. Craffu cynigion y gyllideb

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet y Cynghorydd Callard gynnig y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod ac ateb cwestiynau aelodau gyda'r Aelod Cabinet Ian Chandler, Aelod Cabinet Martyn Groucutt, Jane Rodgers, Tyrone Stokes, Peter Davies, Will McLean a Jonathan Davies. Esboniodd y Cynghorydd Callard fod y cynigion yn cynnwys gostyngiad o 3.2% yng nghyllideb Mon Life a chynnydd o 6.3% yn y gyllideb adnoddau. Cadarnhaodd fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 7.5% a bod y Cyngor yn y cam ymgynghori cyhoeddus ar hyn o bryd.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:

Addysg

- Yng nghyswllt arbedion effeithiolrwydd ysgolion o £854k, holwyd sut fydd hyn yn edrych mewn gwirionedd ar gyfer ein hysgolion. Gofynnodd aelodau am enghreifftiau o sut yr aiff ysgolion ati i wneud yr arbedion hyn.

- Gofynnodd aelodau os yw'r Cabinet yn bryderus am ddiwedd £21.3 miliwn o gronfa Llywodraeth Cymru at Gyflog Athrawon, ynghyd ag arbedion effeithiolrwydd, ac os y gallem o bosibl golli athrawon ac os felly faint. Gofynnwyd i'r aelod cabinet os oedd wedi lobïo Llywodraeth Cymru i ailosod cronfa cyflogau athrawon ar gyfer y flwyddyn i ddod i liniaru'r baich ar ysgolion. Holodd aelodau os y gallai maint dosbarthiadau gael ei gynyddu oherwydd pwysau staffio ac os y gallai plant fod dan anfantais fel canlyniad i'r cynigion hyn.
- Gofynnodd aelodau os oes gan yr Aelod Cabinet unrhyw bryderon y gallai'r arbedion effeithiolrwydd gael effaith negyddol ar ansawdd y cynnyrch mae'n rhaid i ysgolion ei gaffael, gan arwain at i ysgolion ddewis opsiynau rhatach.
- Gofynnodd aelodau pa fesurau lliniaru a wneid yng nghyswllt unrhyw bryderon am anghydraddoldeb a amlygwyd.
- Yng nghyswllt cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), holodd Aelodau am effeithiau y gostyngiad yn y cyfraniad craidd at EAS ar Sir Fynwy.

Gofal Cymdeithasol

- Gofynnwyd cwestiynau am ddileu swyddi a swyddi gwag – faint, a ph'un a gânt eu llenwi.
- Gofynnwyd am eglurhad os yw'r angen a aseswyd yn cael ei ostwng a sut y gallwn ddangos y bydd newid staff yn dal i ateb y goblygiadau statudol.
- Roedd peth pryder os y bydd gan aseswyr gofal cymdeithasol y cymwysterau a goruchwyliaeth ddigonol i fedru cyflawni'r rôl, o gofio fod cyfeirio at wasanaethau yn wahanol i gynnal asesiad a chwestiynau os y bydd unrhyw effaith ar weithwyr cymdeithasol cofrestredig.
- Yng nghyswllt Budden Crescent, gofynnodd Aelodau am sicrwydd fod rhan o'r ailgyflunio ar gyfer ailddylunio'r gwasanaeth a sicrhau rhannu bywydau.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y cyllid ychwanegol ar gyfer gofal a cymorth, ac os y bydd gan y bobl hynny fynediad i gyngor ar hawliau llesiant.
- Yng nghyswllt gofal maeth, gan ein bod yn dibynnu'n helaeth ar asiantaethau maeth annibynnol, gofynnodd Aelodau sut y caiff y gwahaniaeth mewn costau ei drin? Sut fyddwn ni'n denu gofalwyr maeth i'r sir ac a fedrid ystyried gostyngiad yng nghyfraniad y dreth gyngor?

Cerddoriaeth Gwent

- Holodd aelodau em effaith colli'r cymhorthdal ar Gerddoriaeth Gwent a'u hadborth ar y cynnig. Gofynnwyd faint o ysgolion fyddai'n medru cyllido hyfforddiant cerddoriaeth ysgol gyfan ac os y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar y disgyblion sydd fwyaf dan anfantais ac arwain at gyfle anghyfartal.
- Esboniodd swyddogion fod Cerddoriaeth Gwent yn derbyn cyllid heblaw'r cymhorthdal a gynigiwyd gan y Cyngor. Dywedodd Aelod y gall unigolion hefyd gefnogi Cerddoriaeth Gwent a gofynnodd am i nodyn atgoffa gael ei anfon at Gynghorwyr.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Gofynnodd aelodau pa ystyriaethau a roddwyd i leihau cynigion y gyllideb ar blant gydag anghenion dysgu ychwanegol ac os byddai arian yn ychwanegol yn dilyn plant y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Cwestiynau Eraill

- Roedd peth pryder am newidiadau i oriau agor canolfannau hamdden, yn arbennig ar benwythnosau a gofynnwyd am esboniadau am y gostyngiad.
- Gofynnwyd cwestiynau am swyddi gwag a dileu swyddi a'r effaith ar ddarpariaeth staff a gwasanaethau presennol.
- Gofynnwyd cwestiynau am eglurhad am y Dreth Gyngor, ffioedd ac ardollau a phraesept yr Heddlu a'r Awdurdod Tan.
- Gofynnwyd am ddadansoddiad o gostau ysgolion bob blwyddyn (**Gweithredu: Will McLean**)
- Gofynnwyd cwestiynau am y rhaglen gyfalaf, yn arbennig yng nghyswllt effaith cyllid ar gynnal a chadw parhaus Ysgol Cas-gwent. Gofynnodd Aelodau am sicrwydd na fydd Ysgol Cas-gwent ac eraill yn colli mas ar unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol tra maent yn aros buddsoddiad cyfalaf.
- Gofynnwyd cwestiynau am gludiant cymunedol ac os bydd newidiadau i Grassroots.

Crynodeb y Cadeirydd:

Rydym wedi craffu'n llawn ar oblygiadau cynigion y gyllideb ar y gwasanaethau a ddaw o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor a gofyn llawer o gwestiynau am ysgolion, gofal yn y cartref, pwysau gofal cymdeithasol, hamdden, Cerddoriaeth Gwent, gwasanaethau maeth ac anghenion dysgu ychwanegol, a llawer maes arall. Mynegodd y pwyllgor ei bryder i sicrhau na chaiff pobl eu rhoi dan anfantais oherwydd cynigion y gyllideb a gofynnwn i'r Aelodau Cabinet ystyried ar y pwyntiau a godwyd wrth symud ymlaen gyda chyllideb y Cyngor ar gyfer 2024 i 2025.

4. Nodi Blaenraglen Gwaith a Rhestr Weithredu y Pwyllgor Craffu Pobl

Ychwanegir adroddiad y Gyfarwyddiaeth Gofal at y rhaglen gwaith.

5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 1 Rhagfyr 2023 (cyfarfod arbennig)
- 14 Tachwedd 2023 Cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgorau Craffu Perfformiad a Throsolwg a Pobl

Cynigiodd y Cynghorydd Powell ac eiliodd y Cynghorydd Edwards.

6. Cyfarfod nesaf:

Cyfarfod Arbennig 6 Chwefror 2024.

The meeting ended at **12.06 pm**